



Cronfa Bensiwn **GWYNEDD** Pension Fund

Datganiadau Polisi Gweinyddol

Teitl: Polisi ar Egwyl mewn Addysg ar gyfer Pensiwn Plentyn Dibynnol CPLIL

1. Pwrpas

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi ymrwymo i gefnogi dibynyddion ei haelodau sy'n dilyn addysg bellach neu hyfforddiant galwedigaethol ar ôl troi'n 18 oed. Mae'r polisi hwn yn nodi'r amgylchiadau lle y caniateir egwyl o addysg heb effeithio ar hawl i bensiwn plentyn dibynnol o dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), yn benodol ar gyfer unigolion rhwng 18 a 23 oed.

2. Darpariaethau'r Polisi

a. Cymhwyster

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ddibynyddion:

- Rhwng 18 a 23 oed,
- Sy'n gymwys i gael pensiwn plentyn dibynnol CPLIL,
- Sy'n cymryd egwyl dros dro o **addysg llawn amser neu hyfforddiant galwedigaethol**, gyda'r bwriad gwirioneddol o ddychwelyd.

b. Egwyl Derbyniol mewn Addysg

- Caniateir egwyl o un flwyddyn academiaidd o addysg neu hyfforddiant llawn amser.
- Yng ngwledydd Prydain, mae blwyddyn academiaidd yn cyfeirio at y cyfnod pan fydd ysgolion, colegau a phrifysgolion yn darparu eu haddysgu a'u hasesiadau a drefnwyd. Fel arfer, mae'n rhedeg o ddechrau mis Medi tan ddiwedd mis Gorffennaf, er y gall dyddiadau penodol amrywio ychydig yn ôl sefydliad neu ranbarth.
- Rhaid i'r egwyl ddigwydd ar ôl i'r dibynnol gyrraedd 18 oed, ac yna ddychwelyd i astudio'n llawn amser.

c. Datganiad o Fwriad

- Rhaid i'r dibynnol (neu warcheidwad) anfon **hysbysiad ysgrifenedig** i Gronfa Bensiwn Gwynedd **cyn i'r egwyl ddechrau**.
- Rhaid i'r hysbysiad gadarnhau'n glir y bwriad i ddychwelyd i addysg neu hyfforddiant llawn amser ar ôl yr egwyl.

d. Cadarnhad Ddychwelyd i Addysg

Er mwyn ailgychwyn taliadau pensiwn y plentyn, rhaid cyflwyno:

- **Cadarnhad swyddogol o gofrestriad** gan y sefydliad addysgol neu'r corff cyflogi,
- **Manylion y cwrs**, gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen disgwyledig,
- **Cadarnhad ei fod yn llawn amser** (e.e. oriau astudio neu lwyth credyd).

e. Atal ac Ailgydio'r Pensiwn

- Bydd taliadau pensiwn yn cael eu **hatal dros dro** yn ystod yr egwyl a ganiateir.
- Ar ôl derbyn a gwirio tystiolaeth o gofrestru, bydd taliadau'n cael eu **ailgychwyn** a'u talu'n ôl i ddyddiad dechrau'r tymor newydd.

f. Methiant i Ddilyn y Polisi

- Os na fydd y plentyn yn **dychwelyd** i addysg llawn amser o fewn y cyfnod o un flwyddyn academiaidd, caiff pensiwn y plentyn ei **gau**.
- Cynhelir adolygiad terfynol o'r hawl yn unol â Rheoliadau'r CPLIL a'r polisi hwn.

3. Adolygu'r Polisi a Newidiadau

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i ddiwygio yn ôl yr angen i sicrhau ei effeithiolrwydd a'i gydymffurfiaeth â rheoliadau perthnasol.

4. Manylion Cyswllt:

Gall aelodau gysylltu â'r Gronfa ar unrhyw adeg i gael cymorth gyda'r polisi hwn.

- **Ffôn** 01286 679982
- **E-bost:** pens@gwynedd.llyw.cymru
- **Gwefan:** www.cronfabensiwnngwynedd.llyw.cuymru

Cymeradwywyd gan: [Enw] Cronfa Bensiwn Gwynedd

Dyddiad: